# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Llanllwni**

**Ysgol Llallwni**
**Llanllwni**
**Pencader**
**SA39 9DX**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15/05/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Llanllwni

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Llanllwni |
| Lleoedd cofrestredig | 9 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad ar ôl cofrestru yw hwn |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn teimlo'n hapus iawn, yn ddiogel ac yn gartrefol yn y lleoliad. Mae ganddynt lais eithriadol o dda ac maent yn rhyngweithio'n rhagorol. Mae'r plant yn mwynhau eu profiadau dysgu yn fawr ac yn datblygu sgiliau annibyniaeth da.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn fodelau rôl da ac yn rhyngweithio â'r plant yn gadarnhaol. Mae'r staff yn hybu chwarae a dysgu'r plant drwy ddilyn eu diddordebau a'u dewisiadau.

Mae'r lleoliad yn gweithredu o fewn ysgol gynradd Gymraeg. Mae'r arweinwyr yn darparu ardal dan do sy'n addas ar gyfer oedran a cham datblygu'r plant. Maent yn darparu amgylchedd sy'n ddiogel ac yn lân. Fodd bynnag ni chaiff ymarferion tân eu cynnal yn rheolaidd. Mae'r arweinwyr yn darparu amrywiaeth eang o adnoddau ysgogol dan do ac yn yr awyr agored.

Mae'r arweinwyr yn drefnus ac yn gwneud trefniadau effeithiol i wella llesiant, diogelwch ac iechyd y plant y maent yn gofalu amdanynt. Mae ganddynt systemau hunanwerthuso effeithiol ar waith. Mae lle i wella mewn perthynas â'r gwiriadau addasrwydd. Mae'r partneriaethau â'r rhieni ac eraill yn dda.

| **Llesiant** | **Rhagorol** |
|---|---|

Mae'r plant yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel iawn yng Nghylch Meithrin Llanllwni. Maent yn cyrraedd yn ddidrafferth ac yn hyderus ac yn setlo i chwarae gyda'r adnoddau o'u dewis ar unwaith. Mae gan y plant ymdeimlad o gyflawniad yn yr hyn y maent yn ei wneud. Maent yn gwenu o glust i glust yn falch wrth iddynt gael canmoliaeth am fod yn gyfeillgar tuag at eraill ac yn ystyriol ohonynt. Er enghraifft, rhoddodd un plentyn ddoli i blentyn arall yn garedig am fod y plentyn yn gwybod mai dyna oedd hoff degan y plentyn arall. Mae'r plant yn hapus iawn pan fyddant yn canu caneuon cyfarwydd ac yn curo dwylo ac yn cymeradwyo eu hunain am eu hymdrechion arbennig.

Mae gan y plant lais eithriadol o dda. Maent yn symud o gwmpas yr ardaloedd sydd o ddiddordeb iddynt yn hyderus ac yn symud adnoddau o un ardal i'r llall yn rhwydd ac yn hyderus. Er enghraifft, maent yn chwarae gydag eitemau chwarae rôl y gegin, teganau fferm ac ardaloedd adeiladu, ac yn mynd âu deinosoriaid a'u hanifeiliaid gyda nhw i wella eu profiadau dysgu. Mae'r plant yn teimlo'n hyderus bod eu safbwyntiau a'u barn yn cael eu parchu ac y gwrandewir arnynt. Er enghraifft, wrth gynllunio eu gweithgareddau, dywedodd y plant wrth y staff eu bod am fynd am dro, canu a dawnsio, a gweithredodd y staff ar bob un o'r ceisiadau hyn.

Mae'r plant yn rhyngweithio mewn ffordd ragorol. Maent yn rhannu'r adnoddau gyda ffrindiau yn effeithiol ac yn eithriadol o dda. Er enghraifft, caiff y plant eu gweld yn rhannu llyfr â chynhwysion i wneud cawl, ac yn cymryd eu tro i enwi'r llysiau, a thrwy wneud hyn, mae'r plant eraill yn ymuno yn yr hwyl. Mae'r plant wrth eu bodd gyda'r staff sy'n gofalu amdanynt, ac yn mynd atynt yn ddigymell am faldod. Maent yn dangos parch a chwrteisi tuag at y staff drwy ddweud 'os gwelwch yn dda' a 'diolch' am adnoddau wrth chwarae rôl ac yn ystod amser byrbryd.

Mae'r plant yn mwynhau eu profiadau dysgu a chwarae yn fawr. Maent yn chwerthin yn uchel pan fyddant yn gweithio gyda'i gilydd i adeiladu tŵr o flociau ac yna'n eu taro i lawr. Mae'r plant yn hyderus wrth ymuno yn y gweithgareddau y maent yn falch ohonynt ac yn eu mwynhau. Roeddent yn arbennig o gyffrous wrth glywed y gân ‘Godro y fuwch’ ac roeddent yn canu ac yn dawnsio'n frwdfrydig ac yn hyderus iawn. Mae'r plant yn gwrando ar gyfarwyddiadau gan staff er mwyn eu cadw'n ddiogel. Er enghraifft, maent yn gwrando ar y staff pan fyddant yn gofyn iddynt arafu ar y beiciau yn yr awyr agored. Mae'r plant yn gyffrous iawn pan fyddant yn chwarae yn yr awyr agored ac yn frwdfrydig iawn am eu chwarae. Er enghraifft, maent yn gweiddi “*Ready Steady Go!!”* pan fyddant yn chwarae ar eu beiciau ac yn mwynhau gwneud marciau a'r rhannau rhydd sydd ar gael.

Mae'r plant yn meithrin sgiliau annibyniaeth da iawn. Maent yn helpu eu hunain i ddiodydd ac yn estyn eu llestri go iawn eu hunain yn ystod amser byrbryd ac yn arllwys eu llaeth eu hunain i mewn i gwpanau. Yn ystod amser chwarae corfforol, mae'r plant yn dangos sgiliau gwych wrth ddefnyddio peli a beiciau cydbwyso. Maent yn ddefnyddio dychymyg yn eu chwarae ac yn datblygu sgiliau echddygol manwl gwych wrth roi gleiniau ar linyn.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn annog y plant i fod yn egnïol dan do ac yn sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd i fwyta ac yfed yn iach. Mae'r staff yn darparu dewis maethlon o fyrbrydau i'r plant. Mae'r rhain yn cynnwys ffrwythau, caws a thost, gyda llaeth a/neu dŵr. Mae'r staff yn ymwybodol o anghenion deietegol a dewisiadau'r plant ac yn gweithredu arnynt yn briodol. Maent yn sicrhau y caiff pob ardal fwyta ei diheintio, a bod y plant wedi golchi eu dwylo cyn bwyta. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer newid cewynnau ac mae'r staff yn defnyddio menyg a ffedogau wrth helpu'r plant i fynd i'r toiled. Mae'r staff yn deall y trefniadau amddiffyn plant a'r gweithdrefnau diogelu. Maent yn ymateb yn dda i gwestiynau sy'n ymwneud â senarios diogelu posibl a phryderon ynghylch llesiant plant. Caiff pob damwain a digwyddiad eu cofnodi a'u llofnodi. Fodd bynnag, nid yw anafiadau sy'n bodoli eisoes yn cael eu cofnodi a'u llofnodi gan rieni. Mae digon o staff sy'n meddu ar dystysgrifau cymorth cyntaf. Mae gan y staff dystysgrifau hylendid bwyd addas, ac mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau ei hyfforddiant diogelu.

Mae'r staff yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r plant. Maent yn canmol y plant am wrando ar gyfarwyddiadau ac yn eu hannog i ofalu amdanynt eu hunain ac am eraill. Er enghraifft, maent yn llwyddo i gael y plant i wrando'n ofalus yn ystod taith gerdded yn y gymuned. Mae'r staff yn dangos empathi tuag at y plant. Maent yn annog y plant i fynegi eu teimladau'n gyson. Mae'r staff i gyd yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn sensitif a chyfeillgar tuag at eu diddordebau a'u straeon. Er enghraifft, roedd y plant yn gwrando'n astud pan roedd plentyn yn dweud wrthynt am eu tadcu ar y fferm gyda'i dractorau Mae'r staff yn defnyddio technegau tynnu sylw er mwyn lleihau unrhyw risgiau. Er enghraifft, pan daflodd y plant eu gwellt yn yr awyr yn gyffrous, gwnaethant dynnu eu sylw drwy ofyn iddynt ble y byddent yn rhoi'r gwartheg a'r tractorau. Mae'r staff yn rhoi ymdeimlad o gyflawniad i'r plant drwy eu canmol wrth iddynt lwyddo i gyflawni eu nodau. Maent yn sicrhau bod y plant yn cael eu canmol am dacluso ac am fod yn garedig. Maent yn fodelau rôl da ac yn annog y plant i fod yn gwrtais, yn ofalus ac yn gyfeillgar.

Mae'r staff yn hybu chwarae a dysgu'r plant drwy ddilyn eu diddordebau a'u dewisiadau. Maent yn asesu galluoedd y plant ac yn ymwybodol o'u camau datblygu nesaf. Caiff y broses o gynllunio gweithgareddau ei selio ar syniadau gan y plant, anghenion datblygiadol a dewisiadau. Mae'r staff yn cynyddu'r cyfle i'r plant gaffael y Gymraeg yn effeithiol. Yn ystod amser cylch, maent yn canolbwyntio ar liwiau, cyfri ac adnabod enwau ffrwythau a llysiau, anifeiliaid a lluniau o lyfrau darllen a chardiau fflach. Dengys y staff ddealltwriaeth dda iawn o'r fframwaith anghenion dysgu ychwanegol ac maent yn gwybod sut i gael gafael ar gymorth ychwanegol i'r plant pe bai angen. Maent yn cynllunio ac yn hyrwyddo profiadau amlddiwylliannol ar gyfer y plant, sy'n cynnwys Diwali, Hannukah, y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a dathliadau Cymreig.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd glân a diogel. Mae'r lleoliad mewn ysgol ac maent yn sicrhau bod giatiau'r ysgol wedi'u cloi'n ddiogel. Mae drysau'r cylch yn cael eu cadw ar gau ac maent yn sicrhau bod cofnod o bob ymwelydd. Mae gweithdrefnau brys ar waith ac mae gwiriadau cynnal a chadw yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Mae asesiadau risg cyffredinol manwl ar gyfer yr ardal dan do a'r ardal awyr agored, yn ogystal ag arf gyfer gwibdeithiau a theithiau cerdded yn y gymuned leol. Caiff asesiadau risg a thasgau glanhau dyddiol eu cofnodi. Cedwir bocsys cinio'r plant yn yr oergell.

Mae'r lleoliad yn gweithredu o fewn ysgol gynradd Gymraeg. Mae'r arweinwyr yn darparu ardal dan do i'r plant sy'n addas ar gyfer oedran a chamau datblygu'r plant sy'n bresennol. Mae'r ardal chwarae dan do yn darparu ardaloedd chwarae i ddatblygu creadigrwydd, annibyniaeth a sgiliau ieithyddol y plant, gydag ardaloedd i eistedd, ymlacio a chysgu pan fydd angen. Mae byrddau a chadeiriau addas i'r plant fwyta, cymdeithasu a mwynhau gweithgareddau pen bwrdd. Mae'r toiledau a'r ardaloedd newid wedi'u lleoli y tu allan i'r ystafell chwarae ac yn cael eu rhannu â phlant ifancaf yr ysgol dan oruchwyliaeth ofalus y staff. Mae'r ardal chwarae awyr agored yn fawr ac ar gael ar adegau penodol o'r dydd. Mae'r amgylchedd yn rhoi ymdeimlad o berthyn i'r plant. Maent yn sicrhau bod enwau, lluniau a gwaith crefft y plant yn cael eu harddangos yn helaeth er mwyn i'r plant eu gweld.

Mae'r arweinwyr yn darparu amrywiaeth eang o adnoddau ysgogol dan do ac yn yr awyr agored. Caiff teganau ac adnoddau eu labelu ac maent yn hygyrch i'r plant. Dan do, mae gan y plant fynediad at amrywiaeth o jig-sos, llyfrau, ceir, doliau, adnoddau chwarae rôl, dillad gwisgo i fyny, setiau adeiladu bach a mawr yn ogystal ag ardal byd bach gydag anifeiliaid fferm a gwellt. Mae ardaloedd gwneud marciau dan do ac yn yr awyr agored lle gall y plant ddefnyddio'r byrddau gwyn rhyngweithiol dan do a sialciau yn yr awyr agored. Mae'r arweinwyr yn darparu ardal awyr agored fawr i'r plant fynd ar eu beiciau a chwarae â pheli ac adnoddau chwarae. Mae'r ardal hon yn rhoi'r cyfle i adeiladu modelau drwy ddefnyddio rhannau rhydd. Mae'r arweinwyr yn sicrhau y caiff y plant gyfleoedd i fod yn yr awyr agored bob dydd ac i wneud y mwyaf o gyfleoedd i fynd â'r phlant am dro yn y gymuned leol.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth **Da**

Mae gan yr arweinwyr drefniadau effeithiol i ddarparu lleoliad sy'n gwella llesiant, diogelwch a gofal y plant sy'n mynychu eu lleoliad. Mae'r arweinwyr a'r pwyllgor yn gweithio'n dda i sicrhau y bodlonir y rhan fwyaf o'r gofynion rheoliadol. Mae datganiad o ddiben sy'n adlewyrchu'r gofal a'r gwasanaeth y maent yn eu darparu, sy'n bodloni'r rheoliadau. Mae'r arweinwyr yn adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau yn rheolaidd, gan sicrhau eu bod yn bodloni'r canllawiau cyfredol. Mae'r yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn gyfredol ac mae'r lleoliad yn aelod o swyddfa'r comisiynydd gwybodaeth (ICO). Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod contractau a chaniatadau ar gyfer y plant sy'n  mynychu. Mae cofnod o bresenoldeb y staff a'r plant, ac maent bob amser yn bodloni'r gymhareb rhwng yr oedolion a'r plant.

Mae gan yr arweinwyr systemau hunanwerthuso effeithiol ar waith. Maent yn ceisio cael safbwyntiau'r plant, y rheini a gweithwyr proffesiynol eraill ac yn gweithredu ar y sylwadau sy'n cael eu gwneud. Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn creu targedau gwella er mwyn rhedeg y lleoliad yn y dyfodol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gwiriadau addasrwydd y staff ar gyfer aelodau o staff dyddiol ar waith. Fodd bynnag, nid oedd gwiriadau addasrwydd y staff ar gyfer staff banc a oedd yn cyflenwi absenoldebau yn gyflawn am nad oedd hanes cyflogaeth a geirdaon ar gael ar gyfer aelod o staff. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Mae gan yr holl staff a'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda'r phlant wiriadau datgelu a gwahardd cyfredol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael cyfnod sefydlu addas. Cynhelir sesiynau goruchwylio ac arfarniadau yn rheolaidd gan nodi meysydd i'w datblygu'n broffesiynol. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, ac maent yn fodlon ac yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae ethos tîm cryf ymhlith y staff.

Mae partneriaethau da ar waith. Mae'r arweinwyr wedi meithrin cydberthnasau da iawn â'r rhieni wrth iddynt ymgysylltu â nhw drwy ap webform, gan rannu lluniau a phrofiadau. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn hapus iawn bod eu plant yn fodlon eu byd ac yn hapus i fynd i'r cylch meithrin, ac yn gadael yn hapus bob amser. Maent yn falch â'r cynnydd y mae eu plant yn ei wneud. Mae partneriaeth dda â'r awdurdod lleol a chydberthynas dda iawn â'r ysgol a'r gymuned leol. Maent yn ymuno â'r ysgol ar gyfer diwrnodau chwaraeon blynyddol a digwyddiadau codi arian.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 38 | Sicrhau y caiff ymarferion tân eu cynnal a'u cofnodi'n rheolaidd. | Newydd |
| 28 | Sicrhau y cynhelir gwiriadau addasrwydd ar bob aelod o'r staff a'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda'r plant. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 5 - Cofnodion | Sicrhau y caiff anafiadau sy'n bodoli eisoes eu cofnodi a'u llofnodi |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 26/07/2024